



Cymdeithas Edward Llwyd

# Bwletin Llên Natur 10

i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru  
www.llennatur.com



## Effaith cwmwl ar y Foryd yn Llanfaglan ger Caernarfon.

Enillodd y llun i Ifor Williams wobwr "photo of the week" ar wefan y BBC.

Esboniad Michael Fish o'r llun oedd "*..it shows an anvil of a cumulonimbus cloud as it rises up and collides into the troposphere, where it then seperates and spreads across*". Digwyddodd mewn cyfnod o eira wythnos olaf Rhagfyr 2000.

## Cant o enwau am le gwlyb

Gofynnais i griw WEA Abersoch - pobl o'r ardal, pob un gyda llaw - beth yn union yw **gweirglodd**. "Hanner ffordd rhwng cae a chors" oedd yr ateb parod. Ydi hynny'n wir ymhobman tybed?

A chymryd felly'r eirfa o'r sychaf i'r gwlypaf, dyna i chi "**dôl**", neu faes agored llawr gwlad, yn wreiddiol yn gyfochrog âg afon. Aeth dolen yr afon i olygu'r tir YN y ddolen, neu'r ddol, sydd yn cael ei ddyfrio a'i wrteithio yn naturiol gan y gorlif.

Mae'r diwydiant amgylcheddol Cymraeg yn cael trafferth cyfieithu'r enwau Saesneg am leoedd gwlyb, geiriau megis "**fen**", "**car**", "**mire**" a "**bog**" (clywais "ffen" droeon!), yn lle gwranddo ar deithi naturiol yr iaith.

Yn wreiddiol, lle y tyfai cyrs arno oedd **cors**, planhigyn gyda llaw sydd yn nodweddu'r union gynefin gwlyb calchog y mae'r Saeson yn ei alw'n "**fen**". Yn y gwernydd y tyfai coed gwern, a siawns nad yw **mign**, a'r mwsogl a elwir yn migwyn, yn gwbl ddigysylltiad â'i gilydd? Enw lleol ar Gors Fochno yw'r Figin gyda llaw, a tybed sut le oedd Tal y Mignedd yn Nyffryn Nantlle pan gafodd hwnnw ei enwi?

Lle gwlyb yn unig yw aml i "**Y Wern**" bellach ond "y gwern" oedd y coed a dyfent yno. Dyma un o elfennau mwyaf cyffredin ymhlith enwau lleoedd disgrifiadol Cymru, ac mae mwy ohonynt yn y dwyrain nac yn y gorllewin. Pair hyn i mi feddwl mai lleoedd i weithio coed gwern - ar gyfer gwneud gwadnau clocsiau, neu olog - oedd y gwernydd, gan gynifer o'r enwau hyn sydd yn clystyru ar hyd y gororau heb fod ymhell o weithfeydd mawr y cymoedd diwydiannol.

Enw arall ar le gwlyb sydd yn cyfeirio at fyd gwaith yr oes a fu yw **mawnog** - "**turbary**" yn y Saesneg - neu le i dorri mawn. Cofier *Turf Square* yng Nghaernarfon. Clywais hefyd "ceulan" am dalcen gwaith y lladdwyr mawn yn y

fawnog. Crwydrodd llawer o'r geiriau hyn oddi wrth eu hystyron gwreiddiol dros ganrifoedd, heb son am i natur y lleoedd newid hefyd.

Y gors wlypaf yw honno a elwir yn **siglen** - cors sigledig sydd mor wlyb fel nad yw ond llyn â chroen o lystyfiant dros ei wyneb. Lle tebyg yw **tonnen**, "ton" yn yr ystyr hwn yn golygu'r croen.

Yn ardal Pant Glas (*The Blue Gorge* yn ôl y *New York Times* am bentref genedigol Bryn Terfel!) mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog. Dyma'r gors, yn ôl ei henw dybiwn i, sydd yn gyfuriog o flodau'r felog *Pedicularis palustris*. Pan ofynnais un tro i un o'm cydweithwyr o Sir Fôn a fu'n gyfrifol am y warchodfa honno, i ble oedd ei waith am fynd a fo heddiw, atebodd, yn ffordd ddihafal Gwlad y Medra - "'dan ni am fynd tua swampia Penygroes 'na heddiw dwi'n meddwl". Deud lot a deud dim! DB

*Addasiad o erthygl a gyhoeddwyd gyntaf yn Y Cymru*

## Gwlithlys coch yng Nghors y Gwaed

Eleni bu John Harold yn cofnodi planhigion mewn corstir hyfryd o'r enw Cors y Gwaed, Garndolbenmaen. Un o'r pethau mwyaf amlwg oedd y planhigyn bach coch y **gwllithlys hirddail** *Drosera intermedia*, "miloedd ohonynt fel rhwydwaith o lif gwaed wrth ochr y ffrydiau". Hwn tybed oedd y "gwaed" yn yr enw gofynnodd John?

Y gwllithlys hirddail; Llynneu Cregennen 1977



## Beth yw ôl eich traed Carbonaidd?

Roedd Peter Benoit o'r Bermo yn edrych ymlaen yn ddiweddar at gael tamaid o bysgod i de. Mi brynodd ddarn o hadog wedi ei rewi mewn archfarchnad. Sylwodd ar y print mân ar y cefn fod y darn o bysgodyn wedi ei ddal yng ngogledd Môr yr Iwerydd. "Mi wnaiff hwnna'r tro" meddai gan hanner meddwl am effaith ei ddewisiadau siopio ar yr amgylchedd - dydi Spitzbergen neu Ynysoedd y Ffaero



ddim yn ben draw'r byd, ond tybed?

Ar ôl cyrraedd adre sylwodd ar ragor o brint mân.....



## Union ganrif yn ôl

*AN Alpine Swift (Cypselus melba) was shot on November 20th, 1908, on the land of Colonel Mirehouse on the east side of Angle Bay, Pembrokeshire. The gamekeeper said that he had seen a pair of them in the neighbourhood for some time previously. British Birds Ebrill 1909.*

## ADAR BWYTADWY

### Adam Shewring 1699, *The Plain-dealing Poulterer*

"Yn ogystal â'r adar yr ydym yn eu bwyta heddiw mae Shewring yn son am "Heron, Bittern, gulls, all of which were to be fed with *Bullocks-liver cut in small pieces*"; *Green Plover, Stone Plover, Felfaire, Dottrell, Wheatgear (a smaller Bird than a Dottrel; but brave meat as can be eaten), Ollive*" (pioden y môr), "Godward" (*rhostog?*), "Bunten, Pevet, Shuffler". Soniodd am un aderyn anhysbys, y *Marrel "about the bigness of a Knot, and gray-feathered like a Stent"* Nid y gornchwigen oedd y *Pevet* gan fod yr aderyn hwnnw'n ymddangos ar dudalen arall o dan yr enw " *Bastard-Plover or Lapent,*" a chymerir mai'r *Black-headed* neu'r *Pewit Gull* ydoedd. Cafodd gwylannod eu bwyta yn aml iawn. Porthwyd "*Godwites, Knots, Roofes*" [*Ruffs* mae'n debyg], "*and Curlews which are esteemed of all other the daintiest and dearest,*" ar "*fair Childer-wheat and water, but if you intend to have them extra-ordinary, and crammed, then you must take the finest drest Wheat-meal, and mixing it with Milk, make it into Paste, and as you knead it, sprinkle into it the grains of small Wheat till the Paste be fully mixt therewith; then make little small crams thereof, dipping them in water, give to every Fowl according to his bigness, till the gorge be well fill'd; do this as oft as you shall find the gorge empty.*" Addasiad o Matheson, SEVENTEENTH-CENTURY "POULTRY."

## Glaw mawr 14 Hydref 2008:

cofnod Don Perkins [www.llansadwrn-wx.co.uk](http://www.llansadwrn-wx.co.uk)

*14th November: The frontal cloud gave us rain from midnight, it was light to moderate at times but gave way to drizzle just before 09 GMT. It was misty with poor visibility and 100% relative humidity in a temperature of 13.0C. Pressure was steady on 1015 mb and there was a light SW'ly wind. There was a slow-moving wavy front over Anglesey and a band of moderate to heavy rain moved NE during the day. With the soil now saturated with water there was runoff on to roads. A stream of water from higher ground was running across the garden and roads near the weather station were partially flooded. By 1800 GMT 27.5 mm of rain had fallen since 0900 GMT, although lighter the rain continued until 2300 GMT before turning to heavy drizzle. Rainfall for the day 40.3 mm, 52.3 mm in past 48-h; Snowdon had 82.7 mm. There was flood water on the A55 Expressway westbound between Abergwyngregin and Talybont and the railway from Holyhead to London was flooded between Llanfairpwll and Bodorgan.*

Ar wahan i'r 14 Hydref, cafwyd glaw eithriadol hefyd ar y 4 ydd (36.4mm), ac ar y 25ain (37.2mm diwrnod gwlypaf y flwyddyn hyd yma). Cyfanswm y mis hyd at y 29ain oedd 230.3mm sef y trydydd uchaf o unrhyw fis ers i mi ddechrau cofnodi yn Llanfaglan yn 1991 (Ifor Williams Llanfaglan)

## O Ddyddiadur Llên Natur: haf gwlyb 1768

14 Meh 1768 Dinbych "glawio drwy'r dudd, ac fellu dros wuth awr a deigien nes bod llifeiriant mawr yr hwn a wnaeth gollod fawr mewn gwair ac ud i'r rhai oedd a'i tir ynglance yr afonudd" (Dyddiadur Owen Thomas)

16 Medi 1768 Dinbych "yr 16 yr 17 ar 18 y bu glaw a chenllusg. Cafodudd trymion yn amal hud y 17, teg a gwresog o hynny hud y diwedd. Cynhaua trymlud ac eginllud a fu hwn.....Llawer o ud oedd allan eto". (Dyddiadur Owen Thomas)

17 Medi 1768 Selborne "*wheat still abroad. The fields are drenched with rains and almost all the spring corn is abroad. Sheep die*" (Dyddiadur Gilbert White)

19 Tach 1768 "Erchyll y llifddyfroedd drwy'r holl deyrnas, ie a theyrnasoedd eraill hefyd. Mae'r tymhorau megis gwedi newid eu gwedd. Fe ysgubodd Ogwen bont a melinau Llandegai, heb ado carreg ar garreg meddynt i mi". (ALMM)

Ar y 31 Rhagfyr 1768 ysgrifennod Gilbert White, y naturiaethwr a dyddiadurwr enwog o Selborne, swydd Hampshire: "*a wet season began about 9 June which lasted thro' hay making, harvest and seed time, and did infinite mischief to the country*".

Dros faint o ardal y profwyd y *wet season* yma? Yn eang iawn fe ymddengys.

## Gŵyl leuan y Coed 29 Awst 2008

*Festival of the decollation of St John the Bapstist (GPC\*)*. I'r Cymru, Gŵyl leuan y Moch oedd hwn, pan fu'n gyfreithlon i redeg moch yn y coed i'w pesgi ar fes ar gyfer y mesobr (*pannage*) tan y flwyddyn newydd. Enw arall yn y de yw Gŵyl leuan y Cols - o *decolatio* (dienyddio) efallai?

(\*Geiriadur Prifysgol Cymru)

## Pais Dinogad...

Pais Dinogad fraith fraith  
O grwyn **balaod** ban wraith  
Chwid chwid chwidogaeth  
Gochanwn gochenyn wythgeith  
Pan elai dy dad di i heliaw,  
Llath ar ei ysgwydd, llory yn ei  
law,  
ef gelwi gwn gogyhwg -  
Giff, Gaff, daly daly dwg dwg.  
Ef lleddi **bysg** yng nghorwg  
Mal ban lladd **llew** llywiwg.  
Pan elai dy dad di i fynydd,  
Dyddygai ef pen **iwrch**,  
pen **gwythwch**, pen **hydd**,  
Pen **grugiari** fraith o fynydd,  
Pen **pysg** o Raeadr Derwennydd,  
O'r sawl yd gyrrhaeddai dy dad  
di a'i gigwain  
O **wythwch** a **llewyn** a **llwynain**  
Nid angai oll ni fai oradain

Y Gododdin 8ed Garrif

Dyma'r suo cân sydd wedi ei "chladdu"  
ynghanol cerdd arwrol, feddwol, waedlyd Y  
Gododdin. Mae'n dyddio o Oes y Saint tua'r  
wythfed ganrif er i'r gerdd gael ei gosod ar  
bapur bedair canrif yn ddiweddarach. "Yr  
Oesoedd Tywyll" yw'r cyfnod hwn i rai ond  
does dim yn dywyll am y gerdd hon - rydym yn  
gwybod hyd yn oed enwau eu cŵn!

Cân sydd yn ymdebygu i *Bye baby bunting*,  
*Daddy's gone a-hunting* ydyw, ond mae'n  
llawer hŷn ac yn cynnwys nifer o enwau  
anifeiliaid yr heliai tada cyn dychwelyd at  
Dinogad fach a'i mam.

Mae cyfieithiad celfydd y bardd Tony Conran  
(de) i'r Saesneg yn help i ni ddeall yr hen  
Gymraeg. Mae ystyr **llywiwg** bellach yn anghof,  
ac fe all **llewyn** olygu cybyn llew, cath wyllt,  
neu hyd yn oed lincs (cafodd olion canoloesol  
o swydd Efrog yn ddiweddar eu priodoli i'r  
creadur hwn, er y credid cyn hynny iddo farw  
o'r tir yn y cyfnod cyn hanesyddol). Mae'r  
gerdd yn tarddu o'r Hen Ogledd - Cymbria nid  
Cymru - Derwent ydi Derwennydd.

*Dinogad's smock is pied, pied -  
Made it out of marten hide.  
Whit, whit, whistle along,  
Eight slaves with you sing the song*


*When your dad went to hunt,  
Spear on his shoulder, cudgel in  
hand,  
He called his quick dogs,  
"Giff, you wretch,  
Gaff, catch her, catch her,  
fetch, fetch!"*

*From a coracle he'd spear  
Fish as a lion strikes a deer.  
When your dad went to the crag  
He brought down roebuck, boar and  
stag,  
Speckled grouse from the mountain  
tall,  
Fish from Derwent waterfall.*

*Whatever your dad found with his  
spear,  
Boar or wild cat, fox or deer,  
Unless it flew, would never get clear*

## Mapiau Gweision Neidr Gogledd Cymru

Allan Brandon o Rowen, Dyffryn Conwy yw cofnodydd  
swyddogol y gweision neidr yng ngogledd Cymru. Cewch  
gofnodi unrhyw was neidr yn yr ardal trwy COFNOD,  
[www.cofnod.org.uk](http://www.cofnod.org.uk), gwefan ddwyieithog cofnodi bywyd  
gwyllt gogledd Cymru. Gwaith Allan yw asesu'r cofnodion  
sydd yn cyrraedd y wefan. Dyma enghraifft o un o'r




mapiau a luniodd i ddangos hyd a lled ein gwybodaeth am  
y creaduriaid hyn. Tynnais y llun yma o'r picellwr praff yn  
ôl yn 1977 yn y corstir o dan Gapel Egryn ger y Bermo.  
Danfonais y wybodaeth i'r cofnodydd ar y pryd, sef y  
diweddar Mrs. Joan Morgan ym Mhrifysgol Bangor.

Dyma ddywedodd hi yn  
rhifyn nesaf y cylchgrawn  
*Nature in Wales*: "it is  
encouraging to find a  
recent occurrence in  
Merioneth where Duncan  
Brown photographed the species [*Libellula depressa*] near  
Capel Egryn in mid June". Ychydig o anogaeth i  
naturiaethwr ifanc! (Gol.)



## Troeon trwstan Mair a'i photyn aloe vera

Ddoe mi es i lanhau top y ffrij ac mae yno bot o aloe vera.



Mae'r ffrij yn uchel a'r potyn wedi ei  
orddyfrio yn go arw gan bod pawb yn rhy  
ddiog i estyn stepiau - dim ond dal y can-  
trwyn-hir wrth ei ben. Er syndod i mi roedd  
yna ffwng melyn coes fain, gosgeiddig  
iawn yn tyfu ynddo. Roedd amryw arall  
wedi marw. Dyma feddwl am dynnu ei lun  
gan ei fod yn edrych yn od ynghanol yr  
aloe - dim batri yn y camra a finna ddim yn gwybod sut i'w  
ailgychwyn. Es ar garlam am Treborth i gael enw iddo o  
leiaf gan Nigel Brown....Bora heddiw es draw i nol y potyn  
ond yr oedd y peth bach del wedi colli ei liw bron i gyd ac  
wedi dechrau crebachu'n barod. Ei enw ydy *Leucoprinus  
flos-sulfuris* (*Lepiota lutea* oedd ei hen enw). Nigel yn  
credu tyfith llawer mwy ohonynt ond i ni ddal i ddyfrio. Yn  
anffodus trodd y potyn yn y car ar y ffordd adra ond rydw  
i wedi trio cael siap go lew arno....Mi gloais fy hun allan o'r  
car ar y ffordd adra ym Mhentraeth a bu rhaid i mi ddod  
adra ar y bws i nol y gorriad gan mod i wedi anghofio  
hwnnw hefyd (roedd fy mhas bws ar y dresar adra a bu  
rhaid i mi dalu bron i bedair punt o ffêr - llawer o *senior  
moments* y dyddia yma!).

## Tra bod ein gweilch i ffwrdd yn Affrica bell...



..a oedd yna weilch y pysgod yng  
Nghymru cyn i'r par ddechrau nythu  
ym Morthmadog 5 mlynedd yn ol?  
Mae yna son am "eryr" yn dal  
pysgodyn yn stori Culhwch ac Olwen  
yn y Mabinogi - ond gallasai hwnnw  
fod yn eryr môr (*white tailed sea  
eagle*). Y dystiolaeth gryfaf ohonno  
yw arfbais dinas Abertawe, sydd yn  
dyddio o'r 13eg ganrif. Ydi carfan  
rygbi'r Gweilch yn gwybod hynny  
tybed?

## Tywydd Huw a Twm



Mae'r *Alto cumulus* yn gorfod bod gyda'r prydfferthaf o'r holl gymylau. Ar ôl y *mares' tails* y soniais amdanynt yn Rhifyn 9 dyma'r *mackerel sky*, sef *Alto cumulus*, gyda mymryn o *Cirro cumulus* ar y gorwel. Y dywediad enwocaf am hwn yw "*Mackerel sky, not long dry*". Arwydd o newid yw *Alto cumulus* i dywydd ansefydlog ar ôl cyfnod o dywydd braf. Fe'i cysylltir â dyfodiad ffrynt o'r lwerydd. Mae'r *alto*- yn golygu ei fod yn perthyn i uchder cymhedrol. Gwylwch am y gwynt a'r glaw a fydd yn dilyn ymhen 12 i 36 awr pan welwch y patrwm rheolaidd o wadin gwyn HHJ. "Traeth awyr - glaw drannoeth" TE

## Glöyn a lindys Britheg y Gors



Tynnodd Rhys Jones y lluniau yma yng Nghors y Wlad ger Bwlchderwin. Mae'n werth edrych am weoedd y lindys trwy'r gaeaf mewn corsydd lle mae bwyd y glöyn, sef tamaid y cythraul, yn tyfu. Meddai'r Dyddiadur: *The marsh fritillary is prone to spectacular fluctuations in population size....in 1886 there were so many "countless thousands" of larvae in Shropshire that the ground was blackened by the swarm. The species is now extinct in the county.* (Frohawk yn *Brit & Irish Butterflies* gan Adrian Riley).



*fritillary is prone to spectacular fluctuations in population size....in 1886 there were so many "countless thousands" of larvae in Shropshire that the ground was blackened by the swarm. The species is now extinct in the county.* (Frohawk yn *Brit & Irish Butterflies* gan Adrian Riley).

*the ground was blackened by the swarm. The species is now extinct in the county.* (Frohawk yn *Brit & Irish Butterflies* gan Adrian Riley).

## Pwt gan Wil Williams ar ddiwrnod diflas o Hydref..

Jyst i ychwanegu at yr hanes am y Crëyr Gwartheg (Rhifyn 9).... yn Rhifyn Medi/Hydref o *BTO News* tud.3: *Cattle Egrets....well known for their invasive tendencies, Cattle Egrets have successfully colonized every continent except Antarctica under their own steam, first breeding in the US in 1953, after being sighted as early as 1877. They arrived in Australia in the 1940s and New Zealand and Canada in the 1960s. The species appears to be in another colonising phase as, in addition to its UK breeding record, it is currently being sighted on even more remote Pacific Islands, so perhaps this year's one-off is the start of a full scale invasion...'* Sir Fôn nesa ella!



Ar y 30 Medi 2006 tynnais i'r llun o'r pelican hwn. Mi oedd o wedi bod yno am rai dyddia 'nghynt ....be arall na'i ar ddiwrnod fel heddiw 'te...?.(4 Hydref 2008)

**..ac oddi wrth Lari Parc, yr Awstriad o Gymro:** dw'i newydd weld crëyr gwyn yn aber Caernarfon. Clywais sôn eu bod nhw ar eu ffordd (cynhesu byd eang), ond heddiw, cefais i'r fraint o weld un. Yr oedd yn hedfan yn haws na'r rhai glas, ac yn sylweddol llai. Dwi'n gwybod bod rhai yn cyfeirio atynt fel *egrets*, ond mae'r enw 'na yn fy atgoffa mwy am eryrod. Crëyr ydy'r aderyn. Wrth feddwl, yr enw Almaeneg amdanynt yw 'crëyr' - sef *Reiher* - hefyd. *Fischreiher* ydy'r un glas, a *Weissereiher* ydy'r un gwyn.

**...ac o greyr gwyn i garlwm gwyn**



## Welsoch chi un erioedd?

Os do, rhowch floedd...!

Ers o leiaf oes Hywel Dda fe'u defnyddiwyd i ddilladu brenhinoedd:

*Tri phryf a dily y brenhin eu gwerth py du bynnac y llader: llostlydan, a beleu, a charlwnng; canys ohonunt y gwneir amarwyeu y dillat y brenhin*

